



HRT Trawsdermal - Taflen Wybodaeth

Mae HRT trawsdermal (TD) yn golygu bod yr hormonau'n cael eu hamsugno trwy'r croen ac i'r llif gwaed, gan osgoi metaboledd pas cyntaf. Gall HRT TD fod naill ai'n estrogen yn unig neu'n gyfuniad o estrogen a progestogen.

Cyfuniad cyffredin o HRT yw defnyddio estrogen trawsdermal a progesteron/progestogen trwy'r geg. Gellir defnyddio IUS 52mg (a elwir yn gyffredin yn goil hormonaidd) ar gyfer amddiffyniad endometriaidd fel rhan o HRT, atal cenhedlu a rheoli mislif ac mae'n offeryn defnyddiol, yn enwedig yn ystod y perimenopos.

Y prif fathau o HRT TD yw gel, clytiau a chwistrell. Mae pa opsiwn a ddewisir yn dibynnu ar yr hyn y mae'r claf yn ei ffafrio, ac a yw'r dull yn rheoli symptomau'r menopos megis chwysu'n y nos a fflachiadau poeth.

Mae geliau a chwistrellau'n cael eu rhoi bob dydd, ond mae clytiau'n cael eu newid unwaith neu ddwywaith yr wythnos, yn dibynnu ar y brand. Mae crynodeb o nodweddion y feddyginiaeth (SPC) yn nodi'r ffordd gywir o ddefnyddio'r feddyginiaeth, a gellir dod o hyd i'r SPC yn y blwch sy'n cynnwys feddyginiaeth. Dylid trafod y rhain hefyd yn eich ymgynghoriad HRT cychwynnol.

Gellir addasu dosau pob opsiwn HRT TD hyd at ddos drwyddedig uchaf, yn dibynnu ar sut y caiff eich symptomau eu rheoli. Mae pob math o HRT TD yn cael ei amsugno ychydig yn wahanol gan y corff, felly efallai na fydd dos uchaf clwt yn gyfwerth â dos uchaf yr opsiynau gel neu chwistrell. Mae angen trafod unrhyw addasiad i HRT gyda gweithiwr gofal iechyd proffesiynol i wneud yn siŵr ei fod yn ddiogel a bod gan y groth amddiffyniad digonol rhag hyperplasia (newidiadau i gelloedd a allai fod yn gyn-ganseraidd).